Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Cofnodion y Cyd-bwyllgor Archwilio**
**Dydd Mawrth 9 Rhagfyr 2014 am 10:00y.b.**
**Canolfan Reoli Strategol, Pencadlys yr Heddlu**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn Bresennol:** | Mr Alasdair Kenwright, Chair | ) |
| | Mrs Ann Williams | ) Aelodau o'r Cyd-bwyllgor Archwilio |
| | Mr Gawain Evans | ) |
| | Mr Malcolm MacDonald | ) |

**Hefyd yn Bresennol:**

Tim Burton – Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Simon Prince – Prif Gwnstabl (PG)
Carys Morgans – Pennaeth Staff, SCHTh (CM)
Jayne Woods – Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (JW)
Edwin Harries – Cyfarwyddwr Cyllid (EH)
John Herniman – Cyfarwyddwr Ymgysylltu, Swyddfa Archwilio Cymru (JH)
Phil Pugh – Rheolwr Archwilio Ariannol, Swyddfa Archwilio Cymru (PP)
Vicky Davies – Pennaeth Archwilio, TIAA (VD)
Uwch-arolygydd Dros Dro Chris Curtis (eitem 11 ar yr agenda yn unig)
Uwch-arolygydd Richard Lewis (eitemau 9 a 10 ar yr agenda yn unig)
Ditectif Brif Arolygydd Dros Dro Richard Hopkin (eitem 10 ar yr agenda yn unig)
Anne Williams – Swyddog Cymorth, SCHTh

**A17 Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Christopher Salmon a Samantha Gainard, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio.

**A18 Datgan buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**A19 Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2014**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

**A20 Materion yn codi**

O dan A5 cynghorodd y Cadeirydd y disgwylir cyngor cyfreithiol. Roedd trafodaethau ynglŷn â'r Fenter Ariannu Breifat yn parhau a byddai diweddariad yn cael ei roi cyn hir.

O dan A7 rhoddodd JW eglurhad ynghylch lefel y diffyg a nodir yn y cofnodion grŵp ar gyfer 2013/14 lle'r ymddengys fod canran y lefelau diffyg wedi codi'n sylweddol. Nododd JW fod y wybodaeth a gyflwynir ar hyn i bryd o bosibl yn amwys a bydd gwaith pellach yn cael ei gynnal gyda'r nod o ddarparu gwybodaeth gliriach yng nghyfrifon y flwyddyn nesaf. Bydd JW yn gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn pennu

ffordd ymlaen. Nodwyd bod y gwaith hwn yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses adolygu Cyfrifon Blynyddol.

Gyda chaniatâd yr Aelodau, cyhoeddodd y Cadeirydd newid yn nhrefn yr agenda.

**A21 Derbyn cyflwyniad ar ymagwedd yr Heddlu tuag at y Cod Moeseg**

Mae'r Cod Moeseg yn gosod yr egwyddorion a'r safonau ymddygiad y gall y cyhoedd ddisgwyl gan swyddogion a staff ar bob lefel mewn plismona.

Rhoddodd yr Uwch-arolygydd Dros Dro Curtis gyflwyniad ar ymagwedd Heddlu Dyfed-Powys tuag at y Cod Moeseg, gan dynnu sylw at y gwaith sydd wedi'i wneud eisoes a'i gynlluniau ar gyfer mewnosod y Cod.

Cododd y Cadeirydd gwestiwn ynghylch cyfansoddiad posibl Pwyllgor Moeseg a pha un ai a oedd hi'n briodol cael mewnbwn allanol. Tra bod yr Heddlu'n croesawu Pwyllgor eang a gwybodus, roedd angen gwaith pellach ar gyfer sicrhau y gwneir penderfyniadau cywir ar gyfer mewnosod y Cod drwy'r gwasanaeth.

Nododd yr aelodau fod cynnydd ar y gwaith hwn yn gam mawr ymlaen ar gyfer y sefydliad a chanmolodd y Pwyllgor holl agweddau'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn.

**Materion i'w Penderfynu:**

**A22 Ystyried Llythyrau Archwilio Blynyddol yr archwilydd allanol ar gyfer 2013/14**

Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol yn cwmpasu datganiadau ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl ar gyfer 2013-14. Cyhoeddwyd barn ddiamod, a nodwyd fod trefniadau priodol mewn grym ar gyfer sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn eu defnydd o adnoddau. Roedd pwysau ariannol sylweddol yn parhau ond roedd yr Heddlu mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'r rhain yn y tymor canolig. Nid oedd materion arwyddocaol mewn perthynas â materion llywodraethau a oedd angen e dwyn i sylw Aelodau. Cynigodd JH gymorth Swyddfa Archwilio Cymru i'r Cyd-bwyllgor Archwilio pe bai angen cymorth ar gyfer ymgymryd â phroses o hunanasesiad o'i berfformiad ei hun yn ystod y flwyddyn. Diolchodd y Cadeirydd JH am y cynnig, gan ddweud bod cyfarfod wedi'i drefnu gyda'r Pennaeth Staff yn dilyn y cyfarfod pwyllgor ar gyfer y diben hwn.

Crynhodd Amlinelliad Archwilio 2014 y byddai'r gwaith perfformiad sydd wedi'i drefnu gan Swyddfa Archwilio Cymru yn canolbwyntio ar ansawdd data trosedd. Gan fod AHEM hefyd yn cynnal archwiliad cyfnodol o gywirdeb data trosedd ledled Cymru a Lloegr, ac er mwyn osgoi unrhyw orgyffwrdd gydag AHEM, roedd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar ffordd briodol ymlaen. Cafwyd

trafodaeth hir ar y cydweithredu rhwng AHEM a Swyddfa Archwilio Cymru o ran eu cynlluniau archwilio. Nododd MM y meysydd hynny sydd angen craffu mwy manwl yn y dyfodol.

Er waethaf yr hinsawdd ariannol anodd a'r heriau sy'n wynebu'r Heddlu, tynnodd JH sylw at y lefel o'i gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd wedi parhau i weld cynnydd sylweddol blwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae angen ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn wrth osod y praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd ar ddod.

Mewn ymateb i gwestiwn gan GE ar bennu cronfeydd wrth gefn, nododd JW gynlluniau ac opsiynau sydd ar gael ar gyfer defnyddio cronfeydd wrth gefn yn briodol gan ystyried y toriadau sylweddol arfaethedig mewn cyllideb yn y blynyddoedd i ddod.

Hysbysodd JH y Pwyllgor fod Mr Jason Garcia wedi'i bennu'n Rheolwr Archwilio ar gyfer Dyfed-Powys oherwydd ailddyrannu gwaith. Ar ran y Cyd-bwyllgor Archwilio, diolchodd y Cadeirydd Mr Philip Pugh am ei gyfraniad i waith Dyfed-Powys a dymunodd yn dda iddo yn ei rôl newydd.

**Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer 2013-14.**

**Materion i'w Trafod:**

**A23 Ystyried Adroddiad Cynnydd yr Archwilwyr Mewnol**

Darparodd yr adroddiad ddiweddariad ar y fframwaith Sicrwydd Rheolaeth ar 2 Rhagfyr 2014. Roedd dau archwiliad wedi dod i ben ers y cyfarfod Pwyllgor diwethaf, sef Rheoli Ystadau – Cynnal a Chadw Ymatebol a'r Dilyniant Interim. Tynnodd VD sylw at rai newidiadau i'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2014/15 mewn perthynas â'r Prosiect Trawsnewid a Llywodraethu a'r Adolygiad Dyledwyr. Mewn perthynas â monitro, tynnwyd sylw at berfformiad yn erbyn targedau. Trafodwyd cynnydd yn erbyn y Cynllun Blynyddol Interim ar gyfer 2014/15, yn arbennig cynnydd ar argymhellion blaenoriaeth 1 a'u dyddiadau cwblhau diwygiedig. Rhoddir diweddariad ynghylch argymhellion Blaenoriaeth 1 yn y cyfarfod nesaf

**Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol.**

**A24 Ystyried Adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol:**

**a) Rheoli Ystadau: Cynnal a Chadw Ymatebol**

Rhoddwyd sicrwydd cyfyngedig i'r adolygiad. Tynnodd VD sylw at ganfyddiadau allweddol gydag un argymhelliad blaenoriaeth 1 yn ymwneud â'r oedi o ran adolygu ac awdurdodi anfonebau ar gyfer talu. Cadarnhaodd rheolwyr bod mesurau arbennig wedi'u rhoi ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o anfonebau gyda phob bil sy'n weddill yn cael ei brosesu yn nhrefn blaenoriaeth gyda biliau cyfleustodau wedi'u clirio.

Mewn ymateb i gwestiwn gan GE, rhoddodd JW eglurhad ynghylch sut yr oedd y materion wedi codi yn ystod newid o ran rheolwyr a strwythur staffio. Nododd JW fod yr adroddiad archwilio'n adlewyrchiad teg o'r sefyllfa a chadarnhaodd bod mesurau'n cael eu rhoi mewn grym yn awr er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd. Cafwyd trafodaethau rheolaidd rhwng y Prif Swyddog Ariannol. Y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Adnoddau er mwyn monitro'r sefyllfa.

Croesawodd a chanmolodd yr aelodau'r gwaith o fewn y rhaglen archwilio ar feysydd o bryder sydd angen cymorth arbennig gan Archwilio Mewnol.

Cadarnhawyd fod yr holl argymhellion Blaenoriaeth 2 wedi'u trin a'u hadolygu'n unol â hynny.

Roedd yr argymhelliad Blaenoriaeth 1 yn annog trafodaeth ystyrlon o gwmpas peryglon posibl i'r sefydliad mewn amser o lymder sydd o'n blaen.

**b) Adroddiad Dilynol Interim**

Sefydlodd yr adolygiad dilynol interim gamau gweithredu a gymerwyd gan reolwyr mewn perthynas ag argymhellion blaenoriaeth 1, 2 a 3 o'r adolygiadau archwiliad mewnol a restrir o fewn yr adroddiad. Ystyriodd yr adolygiad dilynol pa un ai oedd y camau gweithredu a gymerwyd gan reolwyr wedi mynd i'r afael â'r materion rheoli a arweiniodd at yr argymhellion. Bu cynnydd rhesymol o ran cwblhau'r argymhellion, gyda 56% yn cael eu gweithredu a 2% pellach yn y broses o gael eu gweithredu. Roedd 35% o'r argymhellion wedi derbyn dyddiadau targed diwygiedig gyda dyddiadau chwblhau realistig. Nid oedd 6% o'r argymhellion yn berthnasol bellach. Roedd 2 o'r 17 argymhelliad a dderbyniodd dyddiad targed diwygiedig yn argymhellion blaenoriaeth 1.

**Penderfyniad: Bod y Pwyllgor yn nodi adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol.**

**A25 Derbyn diweddariad ar drefniadau Rheoli Risg**

Rhoddodd CM ddiweddariad ar ran Samantha Gainard ar gynnydd o ran rheoli risg yn y sefydliad. Roedd nifer o is grwpiau wedi'u cynnal ledled yr Heddlu a gyda SCHTh er mwyn hysbysu datblygiad proses Risg a fyddai'n cael ei drafod adeg Grŵp Prif Swyddogion. Byddai Cofrestr Risg Corfforaethol yn cael ei chyflwyno a fyddai'n cael ei hysbysu gan Gofrestr Risg Dynamig. Byddai'r Gofrestr Risg Corfforaethol yn cael ei chyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Archwilio fis Mawrth ac o hynny ymlaen ar sail reolaidd.

Calonogwyd aelodau gan y trefniant hwn ac roedden nhw'n falch o nodi bod risg yn eitem sefydlog gyda'r Bwrdd Plismona a'r Grŵp Prif Swyddogion.

**CAM GWEITHREDU: Cyflwyno'r Gofrestr Risg Corfforaethol yn y cyfarfod Cyd-bwyllgor Archwilio nesaf.**

## A26 Derbyn adroddiad ar sefydlu Tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid

Roedd yr adroddiad yn amlinellu arferion gweithio cyfredol o ran sut y mae'r Heddlu'n ymdrin â phryderon a mynegiannau o anfodlonrwydd a dderbynnir. Doedd dim ystorfa ganolog na dull cyson ar gyfer ymdrin â materion. O'r herwydd, penderfynodd y CHTh a'r PG sefydlu Tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd.

Bydd y Tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid yn ymdrin â thrin cychwynnol pryderon ac anfodlonrwydd a dderbynnir gan yr Heddlu a SCHTh gyda ffocws llwyr ar adfer gwasanaeth lle y gellir ymdrin â materion yn syth. Ni fydd y Tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid yn ymdrin ag unrhyw gwynion a fydd yn parhau'n gyfrifoldeb y Tîm Safonau Proffesiynol lle y mae cwynion yn ymwneud â rheng is na rheng Prif Gwnstabl.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, rhoddodd CM eglurhad manwl o ran rolau a chyfrifoldebau'r Tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid, sydd â'r nod o gefnogi gwella gwasanaeth cefnogi.

Er mwyn cefnogi'r tîm o ran ei ddechreuad, cynigiwyd rhaglen hyfforddi ddwys gyda'r Adran Safonau Proffesiynol er mwyn sicrhau bod y tîm yn medru ymdrin ag amrediad eang o faterion a fyddai'n cael eu cyflwyno iddynt gan y cyhoedd. Rhoddodd yr Uwch-arolygydd Lewis eglurhad lle y cyfeirir materion o bryder yn syth i Swyddogion Heddlu. Byddai sesiynau codi ymwybyddiaeth yn cael eu cynnal ym mhob sir mewn briffiadau heddlu yn ogystal â thrwy gyfarfodydd Tîm Uwch Reolwyr cyn lansio'r tîm er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth fewnol o sefydliad a chylch gorchwyl y tîm.

Roedd sylw gan MM yn cyfeirio at sefydliad arall o'r enw 'Cwynion Cymru' fel ffynhonnell gyswllt werthfawr a chyfeiriodd hefyd at ddogfen weithio ddefnyddiol 'Polisi ar Weithredoedd Annerbyniol' gan achwynyddion. Hefyd, tynnwyd sylw at ddogfen brotocol werthfawr rhwng Swyddfa Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a ddefnyddir ar gyfer dibenion adolygu. Diolchwyd i MM am y wybodaeth, a werthfawrogwyd yn fawr.

Cyfeiriodd JH at ddysgu sefydliadol a manteision o ymdrin â chwynion a allai bwydo i mewn i drefniadau llywodraethu ac ymddangos mewn hyfforddiant a datblygu yn y dyfodol. Cyfeiriodd yr Uwch-arolygydd Lewis at y broses ffurfiol o adrodd drwy'r Grŵp Gwersi a Ddysgwyd.

Cynghorwyd yr aelodau y bydda'r tîm yn cael ei adnabod fel y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus o hyn ymlaen.

**Penderfyniad: Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad.**

## A27 Derbyn cyflwyniad ar y trefniadau a'r polisïau sydd mewn grym mewn perthynas â strategaethau gwerth-dwyll a llygredd

Rhoddodd yr Uwch-arolygydd Lewis gyflwyniad ar y trefniadau a'r polisïau sydd mewn grym mewn perthynas â strategaethau gwrth-dwyll a llygredd. Cyfeiriodd yr Uwch-

arolygydd Lewis at y darlun Cenedlaethol ar lygredd a yrrir gan yr adroddiad a gomisiynwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref '*Without Fear or Favour'*. Cyfeiriodd at yr archwiliadau AHEM diweddar yn Nyfed-Powys ac arweiniodd y Ditectif Brif Arolygydd Dros Dro Hopkin Aelodau trwy beth o'r gwaith yr oedd Dyfed-Powys wedi'i gynnal yn benodol er mwyn rhoi sicrwydd i Aelodau bod y materion yn cael eu hystyried yn weithredol. Crynhodd yr Uwch-arolygydd Lewis yr adroddiad gyda chanlyniadau a meysydd o argymhellion o archwiliad AHEM a oedd ar ffurf ddrafft ar y pryd ac sydd i'w rhannu â'r Pwyllgor pan fyddant wedi'u ffurfioli. Crybwyllodd yr Uwch-arolygydd Lewis fod yr adroddiad yn ganmoladwy iawn o ran y gwaith a gynhaliwyd yn Nyfed-Powys.

Cafwyd trafodaeth a diolchodd y Cadeirydd yr Uwch-arolygydd Lewis a'r Ditectif Brif Arolygydd Dros Dro CI Hopkin am eu cyflwyniad.

## A28 Derbyn Diweddariad ar Raglen Cyfalaf 2014/15

Roedd yr adroddiad wedi'i baratoi ar gais y Cyd-bwyllgor Archwilio a darparwyd diweddariad ar y prif brosiectau a gynhwysir yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2014/15.

Mae 8 prosiect mawr yn gwneud £10.8 miliwn o'r gyllideb cyfalaf o £13.6 miliwn ar gyfer 2014/15. Darparwyd cynnydd ar bob un o'r prosiectau o fewn yr adroddiad a thynnodd JW sylw aelodau at y prosiectau nad ydynt yn rhedeg i gyllideb a'r rhesymau dros yr anawsterau.

Roedd Atodiad A i'r adroddiad yn amlinellu Strategaeth Gyfalaf 2014/15 – 2018/19. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn nodi'r egwyddorion sy'n tanategu cynhyrchu rhaglen blaen gyfalaf Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Roedd yn dangos sut y mae buddsoddi cyfalaf yn cyfrannu at gyflenwi'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

Darparodd Atodiad B i'r adroddiad Raglen Gyfalaf Amlinellol 2014/15.

Roedd MM yn ddiolchgar am yr adroddiad a oedd yn tynnu sylw at bryderon presennol.

**PENDERFYNIAD: Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad ar Raglen Cyfalaf 2014/15.**

## A29 Derbyn adroddiad ar weithgarwch AHEM

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i Aelodau ar weithgarwch AHEM parhaus a'r canlyniadau o nifer o gyhoeddiadau ac archwiliadau diweddar.

Mewn perthynas â Chywirdeb Data Trosedd, er bod yr adroddiad archwiliad cyffredinol yn arbennig o dda o ran arweinyddiaeth ac ansawdd gwasanaeth a ddarperir, roedd yn siomedig nodi bod y cyfryngau'n adrodd bod Dyfed-Powys yn heddlu sy'n perfformio'n wael gyda chanlyniadau gwael o ran cofnodi troseddau. Roedd yr adroddiad yn nodi nifer o argymhellion a fydd yn cael eu gweithredu a'u trafod yn y Grŵp Rheoli Cofnodi Troseddau i gytuno ar gynllun ar gyfer cofnodi troseddau o ganlyniad i'r adroddiad.

Roedd yr adroddiad ar yr arolygiad Llygredd a Chywirdeb yr Heddlu wedi'i drafod a chrëwyd cynllun gweithredu. Roedd y Dirprwy Brif Gwnstabl yn goruchwylio gwelliannau'r heddlu.

Roed Archwiliad Peel wedi rhoi gradd 'Da' i Heddlu Dyfed-Powys yn y chwe maes AHEM graddedig. Roedd hi'n dda nodi bod Dyfed-Powys wedi derbyn gradd 'Da' o ran ymchwilio i droseddau, o ran ymdrin â'r troseddwyr uchelaf eu blaenoriaeth drwy ymagwedd gydlynol â phartneriaid a mynd i'r afael â'r troseddwyr sy'n peri'r perygl mwyaf i'r cyhoedd.

Er bod yr adroddiad wedi nodi rhai pryderon am ymagwedd yr heddlu tuag at gam-drin domestig, roedd yn cydnabod bod cynnydd da wedi'i wneud a bod Dyfed-Powys wedi ymrwymo i ddarparu ymateb da a chymryd camau gweithredu cadarn yn erbyn troseddwyr, gyda safonau ymchwilio da.

Er y disgwylir yr adroddiad Archwiliad Diogelu Plant Cenedlaethol, roedd sesiwn wybodaeth boeth wedi nodi cryfderau a meysydd ar gyfer datblygu. Roedd gwaith yn digwydd er mwyn asesu'r meysydd ar gyfer datblygu a gweithredu lle bo angen.

Mae archwiliadau yn y dyfodol yn cynnwys Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) ac astudiaeth ar Droseddau Digidol a phlismona. Bydd y ddau'n cael eu cynnal fis Ionawr 2015.

Cafwyd trafodaeth ynghylch adolygiad cam-drin domestig Swyddfa Archwiliad Cymru, sydd wedi'i drefnu ar gyfer Rhagfyr 2014. Yn dilyn trafodaeth rhwng y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, teimlwyd nad oedd amseru hyn yn briodol yn dilyn o bob archwiliad yr oedd yr heddlu wedi ymgymryd â nhw dros y 9 mis diwethaf.

Fel y nodwyd yn y cyfarfod diwethaf, mae trafodaethau'n parhau gydag AHEM o gwmpas nifer yr archwiliadau a'r argymhellion i'r dilyn heb gyllideb. Cafwyd trafodaeth hir o gwmpas graddau archwiliad cydberthynol a gyhoeddwyd yn erbyn tystiolaeth o fewn adroddiadau. Roedd aelodau'n fodlon bod argymhellion o werth mawr ac yn cael eu gweithredu. Cyfeiriodd y PG at sylw ysgrifenedig i AHEM ar argymhellion yn cael eu costio mewn amserau o lymder ac i'r ymateb a dderbyniwyd. Nododd y DGHTh bod y Comisiynydd wedi ysgrifennu at Arolygydd EM yn nodi mai cyfrifoldeb y Prif Gwnstabl oedd cyflenwi blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

**PENDERFYNIAD: Bod y Pwyllgor yn nodi'r diweddariad ar weithgarwch AHEM.**

**A30 Derbyn adroddiad geiriol ar gofnodion cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 04.12.14**

Adroddodd EH ar eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2014. Roedd eitemau'n cynnwys:- Diwygiadau i Gylch Gorchwyl y Grŵp sydd wedi'u cwblhau; trafodwyd y Cod Llywodraethu diwygiedig ar ôl i'r Bwrdd Plismona diwethaf gytuno arno; cytunwyd ar broses ddrafft ar gyfer ystyried materion Llywodraethu

Corfforaethol; roedd y Fframweithiau Llywodraethu diweddaraf wedi'u hadolygu ynghyd â chytuno ar olynydd ar gyfer y Matrics cyfredol; nodwyd cynnydd o ran mewnosod y Cod Moeseg ynghyd â diweddariad ar Reoli Risg. Bydd cofnodion llawn yn cael eu rhyddhau erbyn y cyfarfod pwyllgor archwilio nesaf.

Rhoddodd JW a CM adborth o gynhadledd Swyddfa Archwilio Cymru ar Lywodraethu a dderbyniodd ymateb da ac a oedd o werth mawr. Nodon nhw'r prif bwyntiau dysgu a gafwyd o'r gynhadledd ar lywodraethu da.

**Penderfyniad: Y byddai'r Pwyllgor yn nodi'r diweddariad llafar ar y cyfarfod Llywodraethu Corfforaethol ar 4.12.14**

## A31 Unrhyw fusnes arall

Cododd MM y newidiadau mewn strwythurau llywodraeth leol a'r oblygiadau ac amserlenni sy'n gysylltiedig. Cafwyd trafodaeth o gwmpas trafodaethau cynnar mewn cyfarfodydd Byrddau Gwasanaethau Lleol er bod llawer o waith o'n blaenau. Roedd MM yn falch bod y mater yn cael ei fonitro.

**Cyhoeddodd y Cadeirydd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 17 Mawrth a daeth â'r cyfarfod i ben am 12.30y.p.**